

## Merched y Wawr - Llannau'r Tywi – Cinio Gŵyl Ddewi – Chwefror 2018

Mr Thomas Mansel a Mrs Diane Thomas o Fynydd y Garreg oedd gwestai MYW Llannau'r Tywi yn ei cinio Gŵyl Ddewi yn ddiweddar. Daeth nifer o'r aelodau ynghyd i Westy Pantyrathro, ac ar ôl mwynhau pryd blasus o fwyd, cafwyd cyflwyniad cryno o'r gŵr gwadd gan Jill Davies, perthynas i'r teulu.

Cawsom noson ddiddorol a difyr yn ei gwmni. Soniodd am ei fagwraeth ar Fferm Torcefn, Meinciau, sydd bellach yn ystafell fwyta a siop fferm poblogaidd, cyn dilyn gyrfa yn y byd addysg, yn athro, yn brifathro ac yn ddarlithydd yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin. Mae e'n awdur ar y llyfr hanesyddol 'Pentref y Meinciau' ac yn ystod ei anerchiad, darllenodd ddarnau o'r llyfr.

Cawsom ein diddanu gan ei gerddi doniol am draddodiadau a chymeriadau'r hen bentref, ac wrth iddo ddarllen cerdd am y trip ysgol Sul i Borthcawl, roedd sawl un yn cofio diwrnodau tebyg yn ystod eu plentyndod. 'Roedd clywed am ambell gymeriad hoffus y pentref, y cyfeillgarwch rhwng cymdogion, a'r siop leol oedd hefyd yn ganolfan pwysig, yn atgoffa pawb o'r newidiadau sydd wedi digwydd yn ein pentrefi.

Soniodd Thomas hefyd am genedlaethau o'i deulu oedd wedi bod yn cadw Tafarn y Black ers 1851, sydd erbyn hyn yn dŷ preifat. Yn y cyflwyniad clywsom ei fod wedi actio mewn nifer o ddramâu lleol yn ogystal â Pobol y Cwm, a daeth ei dalent yn amlwg wrth i'r noson fynd yn ei blaen. Fel gŵr o Gwm Gwendraeth, roedd dim syndod clywed am ei ddiddordeb mewn chwaraeon, yn enwedig rygbi, a'i fod yn gefnogwr brwd o'r Sgarlets. Soniwyd am ei gyfeillgarwch gyda'r diweddar Ray Gravell a'r gefnogaeth gafodd ganddo tra'n codi arian tuag at elusen cancr.

Diolchodd Anne Evans, ar ran y Gangen, i'r gŵr gwadd am ei anerchiad gartrefol oedd yn denu sylw pawb. Diolchodd hefyd i'r gwesty ac i'r grŵp o aelodau oedd wedi trefnu'r noson. Bydd ein cyfarfod nesaf yn neuadd Llangynog ar 21ain o Fawrth gyda arddangosfa ar drefnu blodau gan Wendy, cwmni Blodwen.